**Mark Drakeford AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-803
Ein cyf/Our ref MD/00051/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

13 Chwefror 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr yn rhoi gwybod i mi am y ddeiseb gan Gyfeillion Traethau'r Barri mewn perthynas â chodi treth ar blastig untro. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad mewn perthynas â phob un o'r pedwar syniad am dreth ar y rhestr fer a amlinellais ar 3 Hydref, a oedd yn cynnwys treth arfaethedig ar blastig untro. Mae llawer o ddiddordeb a chefnogaeth wedi bod i'r syniad o godi treth ar blastig untro yng Nghymru.

Ers cyhoeddi'r rhestr fer wreiddiol, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yng Nghyllideb yr Hydref y bydd Llywodraeth y DU yn lansio galwad am dystiolaeth eleni ynghylch y ffordd y bydd yn mynd i'r afael â phlastig untro, gan gynnwys drwy godi treth.

Rwyf wedi trafod yr alwad am dystiolaeth â Gweinidogion Trysorlys y DU. O ganlyniad i hynny, rydym wedi sicrhau bod Cymru'n rhan o'r broses. Bydd yr alwad am dystiolaeth yn cael ei chyhoeddi cyn y Pasg, a byddwn yn cyfrannu at ddadansoddiad o'r canfyddiadau yn dilyn yr alwad am dystiolaeth, ac yn rhannu barn Cymru am ddatblygu opsiynau polisi. Cymru sydd â'r drydedd gyfradd ailgylchu orau yn y byd – rydym ar frig yr agenda wastraff ac mae gennym lawer i'w gynnig o ran ein profiad helaeth a'n gallu i ymchwilio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar dreth ar blastig untro sy'n benodol i Gymru. Mae hyn yn parhau'n opsiwn i Gymru, a bydd canlyniadau astudiaeth cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, dan arweiniad Gweinidog yr Amgylchedd, yn sail iddo ac rwy'n deall y bydd yn cael ei chyhoeddi maes o law. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y mathau o becynnau allweddol sy'n cael eu defnyddio gan amlaf ar gyfer bwyd a diod, ac mae'n cynnwys dadansoddiad o gynlluniau dychwelyd ernes a threthi.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance